

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

**Practis Deintyddol
Pontycymer; Bwrdd Iechyd
Prifysgol Abertawe Bro
Morgannwg**

Dyddiad yr Arolygiad: 31 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 2 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	7
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
5.	Y Camau Nesaf.....	17
6.	Methodoleg	18
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Pontycymer yn 97 Oxford Street, Pontycymer, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 8DE ar 31 Ionawr 2017.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Deintyddol Pontycymer yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth - Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Pontycymer yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pontycymer a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol Pontycymer yn cynnig gwasanaethau deintyddol y GIG yn unig. Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod Practis Deintyddol Pontycymer yn bodloni llawer o'r safonau gofynnol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, roedd nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac wedi ymrwymo i ddarparu safon dda o ofal
- Roedd offer digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gallai'r practis ei wella:

- Datblygu prosesau ar gyfer cyflwyno ffordd o wrando, dysgu a gweithredu ar sail adborth gan gleifion
- Gwneud gwaith atgyweirio gweddilliol ar gypyrddau ac ymylon lloriau yn yr ystafell driniaeth a sicrhau bod proses ar waith ar gyfer gwirio bod yr holl ddeunyddiau deintyddol sydd heibio eu dyddiad terfyn yn cael eu taflu a bod droriau offerynnau yn drefnus
- Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r asesiadau risg amgylcheddol yn y mannau a nodir
- Adolygu'r archwiliadau cynnal a chadw beunyddiol ar gyfer dadheintio offerynnau
- Mae angen diweddarau anghenion hyfforddiant fel blaenoriaeth mewn nifer o feysydd
- Adolygu a diweddarau polisïau i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis
- Cadw archwiliadau diogelu a diweddariadau hyfforddiant yn gyfredol
- Trefniadau sicrhau ansawdd mwy cadarn
- Ansawdd y broses o gadw cofnodion cleifion
- Prosesau diogelu data.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Canfuom dystiolaeth bod y practis wedi ymrwymo i gynnig profiad cadarnhaol i'w cleifion. Roedd yr adborth a dderbyniwyd trwy ein holiaduron cleifion yn unfrydol gadarnhaol. Mae angen i'r practis ddatblygu system ar gyfer gofyn am adborth cleifion fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith y cleifion i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelyd cyfanswm o 17 o holiaduron. Nododd y cleifion yn ddieithriad eu bod yn cael eu croesawu ac yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Mae'r deintydd hwn yn eithriadol, yn ofalgar ac yn sylwgar bob amser”

“Yn cael croeso mawr bob amser, ni fyddwn yn mynd i unman arall”

“Wedi bod yn hapus gyda'r driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd erioed”

“Hapus iawn gyda'r driniaeth yr wyf yn ei derbyn”

“Ni fyddwn yn mynd i unman arall”

Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth i awgrymu bod gofal yn cael ei ddarparu i gleifion gydag urddas a pharch. Roedd lle ar gael i'r staff gael sgysiau â chleifion mewn man preifat, i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill, os oes angen, at ddiben cynnal cyfrinachedd cleifion.

Gwelsom y staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd adborth gan yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol wrth i'r cleifion ddweud eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth maent yn eu derbyn yn y practis a dywedodd yr holl gleifion eu bod yn cael eu croesawu gan y staff.

Gwelsom fod gwybodaeth am bris triniaeth GIG ar gael yn y man aros, fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Gwelsom fod y drws i'r ystafell driniaeth

(lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad), yn cael ei gadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gofal amserol

Roedd y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n brydlon. Dywedodd cleifion a ymatebodd i'n holiaduron yn ddieithriad nad oeddent wedi dioddef unrhyw oedi cyn derbyn eu triniaeth.

Roedd manylion y deintydd sy'n ymarfer wedi eu harddangos y tu allan i'r adeilad, yn ogystal â'r rhif cyswllt brys ac oriau agor y ddeintyddfa.

Cadw'n iach

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion a hybu iechyd ar gael yn y man aros.

Gofal unigol

Canfuom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG ac roedd hon wedi ei harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion gael gafael ar y wybodaeth hon yn rhwydd, os oes ei hangen arnynt. Canfuom fod y gweithdrefnau yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer codi pryderon am driniaeth GIG (sef 'Gweithio i Wella').

Fe'n hysbyswyd ar adeg yr arolygiad bod canmoliaeth, pryderon a chwynion yn cael eu cofnodi mewn llyfr cwynion. Dim ond un gŵyn a gafwyd hyd yn hyn a oedd yn fân ac yr ymdriniwyd â hi'n briodol. Roedd y ffurflen canmoliaeth, pryderon a chwynion ar gael yn y dderbynfa.

Nid oedd gan y practis ffordd sefydledig o ofyn am adborth cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod arolygon bodlonrwydd cleifion yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn gan sefydliadau allanol, ond nad oedd ffordd barhaus wedi'i sefydlu i ofyn am adborth ac awgrymiadau cleifion. Nid oedd yn eglur a oedd y practis wedi ystyried unrhyw adborth a gasglwyd i wneud gwelliannau.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar gyfer gofyn am adborth cleifion. Mae'n rhaid i'r practis allu dangos sut mae'n monitro camau, canlyniadau ac unrhyw wersi a ddysgwyd.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Canfuom dystiolaeth yn gyffredinol bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Fodd bynnag, ceir nifer o welliannau y mae angen rhoi sylw iddynt i sefydlu a chynnal systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol.

Roedd offer rhesymol mewn cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Fodd bynnag, canfuom fod angen gwneud rhywfaint o waith gweddilliol i ffabrig cypyrddau yn yr ystafell driniaeth ac i sicrhau bod ymyl y llawr wedi ei selio yr holl ffordd o gwmpas.

Roedd asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu cwblhau ond roedd angen eu hystyried ymhellach. Canfuom hefyd fod angen gwella trefniadau o ran rheoliadau tân.

Nid oeddem yn gwbl siŵr am y trefniadau sydd ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellid eu hatal. Roedd gan y practis dystiolaeth bod brechiadau imiwnedd cyfnodol yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff perthnasol. Fodd bynnag, roedd nifer o rannau o'r prosesau dadheintio yr oedd angen eu gwella.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd offer radiograffig wedi cael ei archwilio. Fodd bynnag, roedd hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYİDM) wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn o ychydig ddiwrnodau ac roedd angen hyfforddiant yn y maes hwn ar y nyrs ddeintyddol hefyd. Roedd angen trefnu'r ffeil amddiffyniad ymbelydredd yn well a chynnwys rhagor o fanylion. Roedd angen cynnal archwiliadau asesu ansawdd radiograffig.

Roedd offer dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r polisi dadebru fel bod swyddogaethau a chyfrifoldebau'n cael eu nodi. Dylid cynnal archwiliadau meddyginiaeth a chyffuriau brys yn wythnosol. Roedd angen adnewyddu'r pecyn cymorth cyntaf ac roedd angen cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.

Roedd y practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu mewn perygl. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau archwiliadau diogelu a hyfforddiant diogelu ac roedd angen hyfforddiant diweddarau.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn ôl pob golwg wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn gyffredinol, ac roedd yr ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus yn gyffredinol. Fodd bynnag, canfuom fod angen gwneud rhywfaint o waith gweddilliol i gypyrddau, lle'r oedd arwyddion o draul yn amlwg i ddrysau a chorneli cypyrddau yn rhai o'r ystafelloedd triniaeth. Roedd angen selio ymyl y llawr yr holl ffordd o gwmpas hefyd. Canfuom hefyd fod deunyddiau deintyddol a oedd heibio eu dyddiad terfyn yn cael eu cadw yn nroriau'r ystafell driniaeth a bod angen i'r droriau fod yn fwy trefnus.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis wneud gwaith atgyweirio gweddilliol i gypyrddau yn yr ystafell driniaeth ac mae angen selio ymyl y llawr yr holl ffordd o gwmpas.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith ar gyfer gwirio bod yr holl ddeunyddiau deintyddol sydd heibio eu dyddiad terfyn yn cael eu gwaredu'n briodol a bod droriau offerynnau yn drefnus.

Gwelsom fod y profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau defnydd diogel dyfeisiau trydanol bach yn y practis. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau'r dystysgrif gwifrau trydanol bum mlynedd ar gyfer y safle.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r dystysgrif gwifrau trydanol bum mlynedd ac anfon copi i AGIC.

Roedd asesiadau risg ar Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd¹ ar gael a dalenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd yn ogystal ag asesiadau risg priodol. Roedd eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu storio'n ddiogel.

¹ <http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm>

Roedd cynwysyddion offer miniog wedi eu storio'n ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus ac nad yw'n beryglus. Fodd bynnag, mae angen ychwanegu'r cynhwysydd gypswm, modelau astudio a gwastraff benywaidd at y contract gwastraff peryglus ac nad yw'n beryglus.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r trefniadau contract sydd ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus ac nad yw'n beryglus i gynnwys yr eitemau a nodir yn yr adroddiad.

Canfuom fod angen gwella trefniadau rheoliadau tân. Roedd arwyddion tân wedi'u harddangos. Fodd bynnag, nid oedd digon o ddiffoddwyr tân ar gael. Mae angen contract cynnal a chadw offer tân, a threfnu cyngor asesu perygl tân. Cyngorwyd y deintydd i gael rhagor o gyngor o ran drws yr allanfa dân a'r man gwagio'r adeilad sydd wedi ei leoli ar yr un lefel â'r ystafell driniaeth. Roedd angen asesu storio eitemau llosgadwy ar y llawr cyntaf hefyd.

Ymdriniwyd â'n pryderon am faterion rheoliadau tân o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu i ni ysgrifennu at y practis yn syth ar ôl yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol i gamau unioni brys gael eu cymryd. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad A. Rhannodd AGIC ein canfyddiadau â'r awdurdod tân priodol hefyd.

Roedd polisi iechyd a diogelwch a gwelsom fod asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, canfuom fod angen cynnal adolygiad o asesiadau risg amgylcheddol. Roedd hyn oherwydd i ni nodi nifer o feysydd yr oedd angen eu hystyried a bod diffyg prosesau sicrhau ansawdd mewnol. Er enghraifft, roedd angen ail-lenwi'r silindr ocsigen a chyflwyno contract cynnal a chadw. Roedd angen ystyried y trefniadau ar gyfer storio ffeiliau wedi'u harchifo i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998².

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddarau asesiadau risg amgylcheddol a sicrhau bod yr holl risgiau yn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.

² http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/pdfs/ukpga_19980029_en.pdf

Rheoli heintiau

Nid oeddem yn gwbl siŵr am y trefniadau a oedd ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellid eu hatal. Mae hyn oherwydd i ni ddarganfod nifer o feysydd i'w gwella yn y mesurau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith.

Roedd ystafell ddadheintio ddynodedig ar gael ar yr un lefel â'r ystafell driniaeth. Roedd dogfennau archwilio ar gael ac yn gyfredol ar gyfer yr offer dadheintio a oedd yn cael ei ddefnyddio. Roedd polisi dadheintio ar waith ond roedd hwn yn gyffredinol a chynghorom y dylai'r polisi hwn a pholisïau eraill gael eu llofnodi a'u dyddio gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen polisïau allweddol.

Canfuom nad oedd dwy agwedd ar y prosesau dadheintio yn cydymffurfio â WHTM 01-05. Mae hyn oherwydd;

- Bod yr archwiliadau cynnal a chadw beunyddiol ar yr awtoclaf yn annigonol
- Nid oedd archwiliadau gorfodol o dymheredd a phwysedd ar gyfer yr awtoclaf yn cael eu cynnal yn feunyddiol nac yn cael eu cofnodi.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch yr awtoclaf o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad A.

Canfuom hefyd fod angen gwella agweddau eraill ar y prosesau dadheintio ymhellach. Roedd angen ffedogau diogelwch a chysgod llygaid; dim ond un sinc oedd yn yr ystafell ddadheintio a chynghorwyd y dylid defnyddio powlen. Cafodd y problemau hyn eu datrys ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r problemau canlynol yn yr ystafell ddadheintio ymhellach:

- Mae angen gwneud mannau glân a budr dynodedig yn fwy eglur gyda system lif ar waith ar gyfer hyn
- Mae angen llyfrau log ar gyfer offer awtoclaf ac uwchsain
- Mae angen cynnal profion protein a'u cofnodi ar gyfer offer uwchsain a chadw argraffiadau ar gyfer pob cylch awtoclaf
- Mae'n rhaid pacio a dyddio'r holl offerynnau

- Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, ond ni wnaed hyn fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM01-05)³
- Mae'n rhaid blaenoriaethu hyfforddiant dadheintio.

Roedd y deintydd yn rhagweithiol o ran gofyn am gymorth a chynghor i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae angen gwella prosesau dadheintio yn unol â chanllawiau WHTM01-05 er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn.

Mae angen cynnal archwiliad dadheintio fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM01-05)

Mae angen i'r deintydd a'r nyrs ddeintyddol gyflawni hyfforddiant dadheintio fel blaenoriaeth.

Cyffuriau brys ac offer dadebru

Roedd offer dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (ymgwmpiad). Roedd polisi dadebru ar waith. Roedd angen adolygu hwn i gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff.

Roedd y cyffuriau brys yn drefnus, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Mae angen cadw cofnod o'r archwiliadau cyffuriau brys rheolaidd. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith. Gwelsom gofnodion i ddangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Roedd y practis angen ymarferwr cymorth cyntaf penodedig yn y tîm sydd wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol a pherthnasol. Roedd angen adnewyddu'r pecyn cymorth cyntaf. Roedd angen adnewyddu'r silindr ocsigen a chyflwyno contract cynnal a chadw.

Yr hyn mae angen ei wella

³ <https://dental.walesdeanery.org/practice-quality-improvement/national-audit-projects/whtm-01-05>

Mae angen adolygu'r polisi dadebru fel bod swyddogaethau a chyfrifoldebau yn cael eu nodi.

Dylid cynnal archwiliadau o feddyginiaeth a chyffuriau brys yn rheolaidd gan gadw cofnod o'r rhain.

Mae'n rhaid i'r practis drefnu hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol fel bod digon o gynrychiolaeth cymorth cyntaf ar gael yn y practis. Mae angen adnewyddu'r pecyn cymorth cyntaf.

Mae angen adnewyddu'r silindr ocsigen a chyflwyno contract cynnal a chadw.

Diogelu

Roedd y practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed a allai fod mewn perygl. Roedd polisïau amddiffyn ar waith. Fodd bynnag, roedd y polisïau hyn yn gyffredinol ac roedd angen iddynt fod yn benodol i'r practis gan gynnwys rhifau cyswllt diogelu lleol perthnasol. Cyngorwyd y deintydd i adolygu'r holl bolisïau i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis a'u bod wedi'u dyddio a'u llofnodi. Hefyd, roedd angen diweddarau hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff perthnasol. Fe'n hysbyswyd bod trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant wneud hynny yn ymarferol. Fe'n hysbyswyd y byddai archwiliadau cyn-cyflogi o unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys archwiliadau cymeradwyo gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae angen i'r deintydd adolygu'r polisi diogelu a'r holl bolisïau eraill i sicrhau bod y rhain yn benodol i'r practis ac wedi'u dyddio a'u llofnodi ar adeg eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol hyfforddiant diogelu ar gyfer diogelu oedolion a phlant.

Offer radiograffig

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau'r defnydd diogel o offer ymbelydredd. Gwelsom ddogfennau i ddangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Fodd bynnag, roedd angen i'r practis gwblhau archwiliadau radiograff at ddibenion sicrhau ansawdd. Canfuom hefyd fod hyfforddiant RhYIDM y

deintydd wedi dod i ben ers rhai diwrnodau ar adeg yr arolygiad a bod y nyrs ddeintyddol angen hyfforddiant diweddarau yn y maes hwn hefyd. Felly nid oedd yr hyfforddiant gofynnol ar gyfer RhYİDM yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁴ a Rheoliadau Ymbelydredd İoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYİDM) 2000⁵ ar waith. Darparodd Deoniaeth Cymru gyngor i'r deintydd yn syth ar ôl yr arolygiad a chytunodd y deintydd i fynd ar gwrs cymorth tiwtor lefel dau i ddiwallu'r holl anghenion hyfforddiant. Roedd hyn yn golygu bod gennym rywfaif o sicrwydd y byddai anghenion hyfforddi yn cael sylw yn brydlon. Canfuom fod angen adolygu a diweddarau'r ffeil diogelwch ymbelydredd. Mae hyn oherwydd bod y ffeil yn gyffredinol ac nid yn benodol i'r practis o ran ei gynnwys. Byddai hefyd yn elwa o gynnwys copïau o dystysgrifau RhYİDM a chofnod cyfredol o hyfforddiant RhYİDM.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis gynnal archwiliadau radiograff at ddibenion sicrhau ansawdd.

Dylid darparu tystiolaeth o hyfforddiant diweddarau ar ddiogelwch ymbelydredd i'r deintydd a'r nyrs ddeintyddol i AGIC fel blaenoriaeth, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd İoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Mae angen adolygu'r ffeil diogelwch ymbelydredd fel ei bod yn benodol i'r practis.

Cofnodion Cleifion

Edrychom ar sampl o gofnodion deintyddol a chawsom sgwrs â'r ymarferwr deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Canfuom yn gyffredinol fod gofal cleifion o ansawdd da. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r broses o gadw cofnodion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella gennym o ran cofnodion cleifion:

- Nid oedd hanesion meddygol a chymdeithasol wedi'u cydlofnodi'n gyson gan y deintyddion a'r claf i nodi eu bod wedi cael eu gwirio. Nid oedd system eglur o'u diweddarau.

⁴ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol - <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁵ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

- Nid oedd cyngor rhoi'r gorau i smygu a sgrinio canser y geg yn cael ei gofnodi'n gyson.
- Mae angen i gofnodion archwiliadau'r geg mewnol ac allanol fod yn fanwl, wedi'u gwahaniaethu'n eglur ac wedi'u cofnodi'n gyson.
- Nid oedd cynlluniau ac opsiynau triniaeth yn cael eu trafod, eu cofnodi na'u rhoi i'r claf fel mater o drefn. Mae angen cofnodi cydsyniad cleifion ac achosion o ail-alw cleifion hefyd, yn unol â chanllawiau NICE.
- Cyfiawnhad a chanfyddiadau radiograffau i gael eu cofnodi a'r broses graddio ansawdd i gael ei graddio'n gywir bob amser.
- Triniaeth beriodontol i gael ei darparu i'r claf yn ôl y gofyn yn dibynnu ar yr archwiliad periodontol sylfaenol (BPE – cyflwr deintgig).
- Swm, math a lleoliad anesthetig i gael eu cofnodi. Cofnod i gael ei gadw o rif y swp a dyddiad terfyn yr anesthetig lleol.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid cadw nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau o ran y canfyddiadau penodol a nodir yn yr adroddiad.

Gofal effeithiol

Mae'r cleifion yn elwa o bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir.

Canfuom fod angen ymgymryd â hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus (DPP) mewn meysydd allweddol fel sgrinio canser y geg, ymdrin â chwynion a rhoi'r gorau i smygu. Hefyd, nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol i'r deintydd gynnal archwiliadau adolygu cymheiriaid rheolaidd. Hysbysom ni'r deintydd bod dysgu o adolygiadau ac archwiliadau cymheiriaid yn cyfrannu at ansawdd y gofal a ddarperir. Trafodom yr amrywiaeth o bynciau archwilio a ddarperir gan ddull Deoniaeth Cymru/Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd⁶.

Yr hyn mae angen ei wella

⁶<https://dental.walesdeanery.org/sites/default/files/Guide%20for%20Practices%20MMD%202016.pdf>

Dylai'r practis ffurfioli DPP a threfniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu cymheiriaid rheolaidd, fel ffordd o gynyddu dysgu, rhannu arfer gorau a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae gan Bractis Deintyddol Pontycymer dîm practis bach sydd wedi'i hen sefydlu â throsiant staff isel. Darperir rheolaeth y practis o ddydd i ddydd gan y deintydd. Roedd y staff y siaradom â nhw wedi ymrwymo i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Canfuom fod angen gwneud gwelliannau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau a phrosesau archwilio. Roedd angen gwella gwaith cadw cofnodion a diweddarau hyfforddiant. Argymhellom y dylai'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith i fynd i'r afael â hyn.

Cyfrifoldeb deintydd oedd rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dîm staff wrth eu gwaith a oedd yn ymddangos yn hapus ac yn gymwys yn cyflawni eu swyddogaethau.

Mae angen rhagor o gymorth ar y staff i gael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd tystiolaeth bod arfarniadau staff wedi cael eu cynnal ar gyfer y staff. Fe'n hysbyswyd bod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn cyfnod ymsefydlu ac y byddent yn cael eu hysbysu am bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Dylai cyfarfodydd staff gael eu cofnodi. Cadarnhaom fod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Edrychom ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a gwelsom fod angen adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis. Cynghorom y deintydd fod angen iddynt ddatblygu a gweithredu polisi a gweithdrefnau sicrhau ansawdd, i sefydlu proses barhaus o archwilio ac adolygu, fel ffordd o sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Nodom fod angen rhoi ystyriaeth i'r broses o storio ac archifo ffeiliau cleifion, er mwyn sicrhau diogelwch data personol.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis adolygu'r broses o storio ffeiliau cleifion i gynnal diogelwch data personol.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Pontycymer yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁷ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011⁸. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made>

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>

- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Pontycymer

Dyddiad yr Arolygiad: 31 Ionawr 2017

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
CAMAU SICRWYDD AR UNWAITH					
Canfyddiadau Canfuom nad oedd y prosesau dadheintio yn cydymffurfio â WHTM 01-05. Mae hyn oherwydd; Bod yr archwiliadau cynnal a chadw beunyddiol ar yr awtoclaf yn annigonol Nid oedd archwiliadau gorfodol o dymheredd a phwysedd ar gyfer yr awtoclaf yn cael eu cynnal yn feunyddiol nac yn cael eu cofnodi. Angen Gwella ar Unwaith Mae’n ofynnol i’r practis: Wneud trefniadau fel bod yr awtoclaf wedi ei baratoi i gynnal archwiliadau tymheredd a		Y Safonau Iechyd a Gofal 2.4 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (4) WHTM 01-05 – Section 4	RWYF WEDI ARCHEBU COFNODWR CYLCH DIGIDOL AR GYFER AWTOCLAF ESCHMANN SES 2000 YN UNIONGYRCHOL GAN EISCHMANN. AR ÔL EI DDERBYN, BYDD YN CAEL EI OSOD GAN BEIRIANNYDD O FEWN 5 DIWRNOD GWAITH. Diweddariad gan y practis; Daeth Eschmann i’r ddeintyddfa ar 15/2/2017 a gosodwyd cofnodwr cylch yr awtoclaf. Rydym yn cynnal archwiliadau tymheredd a phwysedd erbyn hyn ac mae’r archwiliadau hyn yn cael eu cofnodi.	Brian Aaron	Cwblhawyd 15 Chwefror 2017

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	phwysedd beunyddiol a dylid cofnodi'r archwiliadau hyn. Darparu dogfennau priodol i AGIC i ddangos bod yr awtoclaf wedi cael ei uwchraddio i gyflawni'r swyddogaeth hon.				
	Canfyddiadau Canfuom fod yr asesiad risg diogelwch tân yn annigonol. Mae hyn oherwydd; Nad oedd contract cynnal diogelwch tân ar waith Nid oedd digon o ddiffoddwyr tân ar gael ar y safle Nid oedd y drws tân i lawr y grisiau o fath priodol ac roedd yn anystwyth i'w agor Ni ystyriwyd bod yr allanfa dân i lawr y grisiau yn fan diogel ar gyfer gwagio'r adeilad Roedd angen ystyried llawr cyntaf yr adeilad o ran storio eitemau llosgadwy. Angen Gwella ar Unwaith Mae'n ofynnol i'r practis: Wneud trefniadau ar unwaith i asesiad diogelwch tân cymwys gael ei gynnal gan gontractwr diogelwch tân priodol Mae'n rhaid i gontract cynnal diogelwch tân fod ar waith Darparu dogfennau priodol i AGIC i ddangos bod yr asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau a bod unrhyw argymhellion a dderbyniwyd wedi	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (d) Rheoliadau Rhagofalon Tân (Gweithle) 1997 a Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005	RWYF WEDI CYSYLLTU AG ADVANCED FIRE TECHNOLOGIES, SYDD WEDI'U LLEOLI YNG NGHAEFFILI, SY'N GALLU CYNNAL ASESIAD RISG DIOGELWCH TÂN LLAWN A DARPARU CONTRACT CYNNAL DIOGELWCH TÂN. RWY'N DISGWYL AM ALWAD GAN MR SIMON THOMAS ODDI YNO I GADARNHAU PRYD Y GALL HYN GAEL EI GYFLAWNI CYN GYNTED Â PHOSIBL. Diweddariad gan y practis; Cynhaliwyd yr asesiad perygl tân ar 17/2/17 ac rydym yn disgwyl yr adroddiad. Byddwn yn cymryd camau ar sail unrhyw argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwnnw ac yn eu cwblhau erbyn 30 Ebrill 2017.	Brian Aaron	Cwblhawyd yr asesiad ar 17 Chwefror 2017 Bydd yr holl gamau a nodwyd yn cael eu cwblhau erbyn 30 Ebrill 2017

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
cael/yn cael sylw.					
Ansawdd profiad y claf					
7	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar gyfer gofyn am adborth cleifion. Mae'n rhaid i'r practis allu dangos sut y mae'n monitro camau, canlyniadau ac unrhyw wersi a ddysgwyd.	Y Safonau Iechyd a Gofal 6.3 <i>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol safon 2.1</i>			
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
8	Mae'n rhaid i'r practis wneud gwaith atgyweirio gweddilliol i gypyrddau yn yr ystafell driniaeth ac mae angen selio ymyl y llawr yr holl ffordd o gwmpas.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.9 <i>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol safon 1.5</i>			
8	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith ar gyfer gwirio bod yr holl ddeunyddiau deintyddol sydd	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.6			

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	heibio eu dyddiad terfyn yn cael eu gwaredu'n briodol a bod droriau offerynnau yn drefnus.	<i>Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau (Gwarchod Diogel) diwygio 2001</i>			
8	Mae'n rhaid diweddarau'r dystysgrif gwifrau trydanol bum mlynedd ac anfon copi i AGIC.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.1 <i>Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989</i>			
9	Mae angen adolygu'r trefniadau contract sydd ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus ac nad yw'n beryglus i gynnwys yr eitemau a nodir yn yr adroddiad.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.1, 2.9 <i>Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005</i>			
10	Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddarau asesiadau risg amgylcheddol a sicrhau bod yr holl risgiau yn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.1 <i>Rheoli Iechyd a</i>			

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<i>Diogelwch yn y Gwaith</i>			
11	Mae angen gwella prosesau dadheintio yn unol â chanllawiau WHTM01-05 er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn.	Y Safonau lechyd a Gofal 2.4 <i>WHTM01-05</i>			
11	Mae angen cynnal archwiliad dadheintio fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05 (WHTM01-05).	Y Safonau lechyd a Gofal 2.4 <i>WHTM01-05</i>			
11	Mae angen i'r deintydd a'r nyrs ddeintyddol gyflawni hyfforddiant dadheintio fel blaenoriaeth.	Y Safonau lechyd a Gofal 2.4 <i>WHTM01-05</i> <i>1.26 – 2.4</i>			
12	Mae angen adolygu'r polisi dadebru fel bod swyddogaethau a chyfrifoldebau yn cael eu nodi.	Y Safonau lechyd a Gofal 5.1 <i>Canllawiau'r Cyngor</i> <i>Deintyddol</i> <i>Cyffredinol</i>			

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<i>safon 6.2.6, 6.6.6</i>			
11	Dylid cynnal archwiliadau o feddyginiaeth a chyffuriau brys yn rheolaidd gan gadw cofnod o'r rhain.	Y Safonau lechyd a Gofal 2.6			
11	Mae'n rhaid i'r practis drefnu hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol fel bod digon o gynrychiolaeth cymorth cyntaf ar gael yn y practis. Mae angen adnewyddu'r pecyn cymorth cyntaf	Y Safonau lechyd a Gofal 2.9 <i>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol safon 1.5.3</i>			
11	Mae angen adnewyddu'r silindr ocsigen a chyflwyno contract cynnal a chadw.	Y Safonau lechyd a Gofal 2.1, 2.9 <i>Rheoliadau Cludiant Nwyddau Peryglus (Dosbarthu, Pacedu a Labelu) a Defnyddio</i>			

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<i>Cynhwysyddion Gwasgedd Cludadwy 1996 Diogelu'r Amgylchedd</i>			
12	Mae angen i'r deintydd adolygu'r polisi diogelu a'r holl bolisiâu eraill i sicrhau bod y rhain yn benodol i'r practis ac wedi'u dyddio a'u llofnodi ar adeg eu hadolygu'n rheolaidd.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.7 <i>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol safon 4.3.3, 8.5</i>			
13	Mae'n rhaid i'r practis gynnal archwiliadau radiograff at ddibenion sicrhau ansawdd.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.9 <i>Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)</i>			

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		2000.			
13	Dylid darparu tystiolaeth o hyfforddiant diweddarar ar ddiogelwch ymbelydredd i'r deintydd a'r nyrs ddeintyddol i AGIC fel blaenoriaeth, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.9 <i>Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.</i>			
13	Mae angen adolygu'r ffeil amddiffyniad ymbelydredd fel ei bod yn benodol i'r practis ac yn fwy trefnus.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.9 <i>Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)</i>			

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		2000.			
14	Mae'n rhaid cadw nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau o ran y canfyddiadau penodol a nodir yn yr adroddiad.	Y Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5, 4.2 <i>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol safon 4</i>			
14	Dylai'r practis ffurfioli DPP a threfniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu cymheiriaid rheolaidd, fel ffordd o gynyddu dysgu, rhannu arfer gorau a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.	Y Safonau Iechyd a Gofal 3.3			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
15	Mae'n rhaid i'r practis adolygu'r broses o storio ffeiliau cleifion i gynnal diogelwch data personol.	Y Safonau Iechyd a Gofal 3.4, 3.5 <i>Deddf Diogelu Data 1998</i>			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: